
**Ffigur 3: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DCS, yn ôl rhyw, 2012-2017**





90.9% o ferched a gyflawnodd y DCS yn 2017.

83.8% o fechgyn a gyflawnodd y DCS yn 2017.

Mae data sylfaenol ar gael ar ffurf tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru.

- Mae'r canran o ferched a gyflawnodd y DCS yn gyson yn uwch na'r bechgyn ers 2012.
- Roedd canran y merched a gyflawnodd y DCS 7.1 pwynt canran yn uwch na chanran y bechgyn yn 2017, gostyngiad o 1.1 pwynt canran o'i gymharu â'r gwahaniaeth yn 2016.
- Bu gostyngiad o 0.3 pwynt canran yn y canran o ferched a gyflawnodd y DCS eleni. Hwn oedd y gostyngiad cyntaf ers 2012 pan gyflwynwyd y mesur.
- Bu cynnydd o 0.8 pwynt canran yn y canran o fechgyn a gyflawnodd y DCS yn 2017.

**Ffigur 7: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DPC Cyfnod Allweddol 2, yn ôl rhyw, 1999-2017**




Cyflawnodd 91.9% o ferched y DPC yn 2017.

Cyflawnodd 87.3% o fechgyn y DPC yn 2017.


Mae data sylfaenol ar gael ar ffurf tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru.

- Mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DPC wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2007 ar gyfer merched a 2006 ar gyfer bechgyn, ac mae nawr yr uchaf erioed ar gyfer y ddau ryw.
- Mae'r canran y marched a gyflawnodd y DPC wedi bod yn uwch na bechgyn ym mhob blwyddyn ers 1999 pan gyflwynwyd y mesur.
- Fodd bynnag, mae bechgyn wedi cau'r bwlch ers 2014.Yn 2017 gwelwyd y bwlch lleiaf erioed yn CA2 (4.5 pwynt canran), gostyngiad o 0.7 pwynt canran o'i gymharu â 2016.Roedd y bwlch mwyaf yn 2000, pan oedd y canran o ferched 9.5 pwynt canran yn uwch na bechgyn.

## Adran 3 – Cyfnod Allweddol 3

Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yn CA3 yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

**Ffigur 9: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DPC Cyfnod Allweddol 3, 1999-2017**




Mae data sylfaenol ar gael ar ffurf tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru.




**81.6%**

a gyflawnodd Lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg





**81.2%**

a gyflawnodd Lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg a Gwyddoniaeth

- Mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DPC wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2007. Roedd y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DPC yn 47.5 y cant yn 1999 pan gyflwynwyd y DPC.
- Yn 2017 gwelwyd y cynnydd blynyddol lleiaf ers 2009 yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DPC.
- Roedd cynnydd o 1.9 y cant ers 2016 yn y canran a gyflawnodd Lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg, ac yn Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth. Fodd bynnag, hwn oedd y cynnydd lleiaf ers 2010.
- Mae'r canran a gyflawnodd Lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2009. Mae Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2008.

**Ffigur 11: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DPC Cyfnod Allweddol 3, yn ôl rhyw, 1999-2017**




Mae data sylfaenol ar gael ar ffurf tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru.

- Mae'r canran o ferched a bechgyn a gyflawnodd y DPC wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2007, ac mae nawr yr uchaf erioed ar gyfer y ddau ryw.
- Mae'r canran y marched a gyflawnodd y DPC wedi bod yn gyson yn uwch na bechgyn ers 1999 pan gyflwynwyd y mesur.
- Fodd bynnag, heblaw am eleni pan fu dim newid yn y bwlch, mae bechgyn wedi cau'r bwlch flwyddyn i flwyddyn ers 2012.Yn 2016 gwelwyd y bwlch lleiaf erioed yn CA3 (7.4 pwynt canran). Roedd y bwlch mwyaf yn 2012, pan oedd y canran o ferched 11.0 pwynt canran yn uwch na bechgyn.

